Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 186(4) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

2019 Rhif (Cy.)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU A LLOEGR

Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2019

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 186 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf").

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno system newydd o gofrestru gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru, gan ddisodli'r un a sefydlwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000 ("Deddf 2000").

Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn disodli'r system gofrestru ar gyfer darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol a nodir yn Rhannau 1 a 2 o Ddeddf 2000, sy'n cofrestru sefydliadau ac asiantaethau. Mae Deddf 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i bob lleoliad y darperir gwasanaeth gofal cymdeithasol ynddo gael ei gofrestru ar wahân.

Mae'r Ddeddf yn gweithredu dull gwahanol sy'n seiliedig ar y gwasanaeth. Rhaid i ddarparwr gofrestru â Gweinidogion Cymru er mwyn darparu unrhyw wasanaeth gofal a chymorth sy'n wasanaeth rheoleiddiedig o dan y Ddeddf a bydd y cofrestriad hwnnw yn cynnwys manylion pob un o'r lleoliadau y mae'r darparwr yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig ynddynt.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n cyfeirio, at

ddibenion amrywiol, at un o'r categorïau o sefydliad neu asiantaeth a reoleiddid o dan Ddeddf 2000 er mwyn rhoi cyfeiriadau at y "gwasanaeth rheoleiddiedig" priodol o dan y Ddeddf yn lle'r cyfeiriadau hynny.

Cychwynnwyd Rhan 1 o'r Ddeddf ar 2 Ebrill 2018 mewn perthynas â'r gwasanaethau rheoleiddiedig a ganlyn—

(a) gwasanaethau cartrefi gofal;

(b) gwasanaethau llety diogel;

(c) gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd;

(d) gwasanaethau cymorth cartref.

Ar 29 Ebrill 2019, mae Rhan 1 o'r Ddeddf wedi ei chychwyn mewn perthynas â'r gwasanaethau rheoleiddiedig sy'n weddill—

(a) gwasanaethau mabwysiadu;

(b) gwasanaethau maethu;

(c) gwasanaethau lleoli oedolion;

(d) gwasanaethau eirioli (nid yw gwasanaethau eirioli wedi eu cofrestru o dan Ddeddf 2000 ar hyn o bryd).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 186(4) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2019 Rhif (Cy.)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU A LLOEGR

Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2019

Gwnaed	***
Yn dod i rym	***

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir gan adran 186 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 186(4) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 29 Ebrill 2019.

Deddf Plant 1989 (p. 41)

2. Mae Deddf Plant 1989 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(**1**) 2016 dccc 2.

3. Yn adran 62(6)(c)(**1**), ar ôl "Health and Social Care Act 2008" mewnosoder ", or section 27 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2)".

4. Yn adran 80(**2**)—

(a) yn y darpariaethau a ganlyn, yn lle "Secretary of State" ym mhob lle y mae'n digwydd rhodder "Appropriate National Authority"—

(i) is-adran (1);

(ii) is-adran (2);

(iii) is-adran (4);

(iv) is-adran (7);

(v) is-adran (11);

(b) yn is-adran (1)(a), ar ôl "home" mewnosoder "in England";

(c) yn is-adran (1)(j), ar ôl " home" mewnosoder "in England";

(d) yn is-adran (4), yn lle "him" yn y ddau le y mae'n digwydd rhodder "it";

(e) yn is-adran (4)(c), yn lle "his" rhodder "its";

(f) yn is-adran (5)(c), ar ôl " home" mewnosoder "in England";

(g) ar ôl is-adran (11) mewnosoder—

"(11A) But subsections (1), (4) and (6) do not apply if—

(a) the Appropriate National Authority is the Welsh Ministers; and

(b) the inspection relates to a private children's home or a care home (see, instead the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2)).";

(h) ar ôl is-adran (13) mewnosoder—

"(14) In this section "Appropriate National Authority" means—

(a) in relation to England, the Secretary of State; and

(b) in relation to Wales, the Welsh Ministers.";

(i) yn y pennawd, yn lle "Secretary of State" rhodder "the Appropriate National Authority".

(**1**) Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p. 14), adran 116 ac Atodlen 4, paragraff 14(1)(a) ac O.S. 2010/813, erthygl 7(2).

(**2**) Yn adran 80(1)(a), mewnosodwyd y gair "private" gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, adran 116 ac Atodlen 4, paragraff 14(16).

5. Yn adran 105(1)(**1**), yn y diffiniad o "children's home", yn lle paragraff (b) rhodder—

"(b) means a place in Wales at which—

(i) a care home service is provided wholly or mainly to children, or

(ii) a secure accommodation service is provided,

and in this paragraph "care home service" and "secure accommodation service" have the meaning given in Part 1 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2);".

Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (p. 56)

6. Yn Atodlen 4A(**2**) i Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, ar ôl paragraff 9 mewnosoder—

"**9A.** Premises in Wales at which a secure accommodation service, within the meaning of Part 1 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016, is provided."

Deddf Trethiant Enillion Trethadwy 1992 (p. 12)

7.—(1) Mae adran 225D(**3**) o Ddeddf Trethiant Enillion Trethadwy 1992 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1)—

(a) ym mharagraff (a), hepgorer "and Wales";

(b) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

"(aa) in Wales, pursuant to arrangements which constitute or form part of an adult placement service,".

(3) Yn is-adran (4), yn lle'r diffiniad o "adult placement service"(**4**) rhodder—

""adult placement service"—

(a) in relation to Scotland, has the meaning given by paragraph 11 of Schedule 12 to the Public Services Reform (Scotland) Act 2010, and

(b) in relation to Wales, has the meaning given by paragraph 6 of Schedule 1 to the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2)."

(**1**) Amnewidiwyd y diffiniad o "children's home" gan O.S. 2018/195 (Cy. 44), rheoliad 12(b).

(**2**) Mewnosodwyd Atodlen 4A gan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1999 (p. 9), adran 1(2) ac Atodlen 1.

(**3**) Mewnosodwyd gan Ddeddf Cyllid (Rhif 3) 2010 (p. 33), Rhan 1, adran 16(3).

(**4**) Amnewidiwyd y diffiniad o "adult placement service" o ran yr Alban gan Ddeddf Cyllid (Rhif 3) 2010 (p. 33), Rhan 1, adran 16(5).

Deddf Safonau Gofal 2000 (p. 14)

8. Mae Deddf Safonau Gofal 2000 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

9. Yn adran 22—

(a) yn is-adran (1)(b)(ii)(**1**), yn lle ", (7)" hyd at y diwedd rhodder "or (7) in so far as relevant to those establishments and agencies.";

(b) yn is-adran (2)(e)(**2**), hepgorer "or section 81 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014";

(c) yn is-adran (7)(**3**), hepgorer paragraff (m);

(d) yn is-adran (8)(b)(**4**), hepgorer y geiriau o "and section 119" i "restricting liberty)" yn y lle cyntaf y maent yn digwydd.

10. Yn adran 30ZA(3)(**5**)—

(a) hepgorer ", or" yn union ar ôl paragraff (a);

(b) hepgorer paragraff (b).

11. Yn adran 30A(2)(**6**)—

(a) hepgorer ", or" yn union ar ôl paragraff (c);

(b) hepgorer paragraff (d).

12. Yn adran 43(3)(**7**), hepgorer paragraff (b)(ii).

13. Yn adran 78(**8**)—

(a) yn is-adran (2), ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

"(aa) regulated services within the meaning of section 2 of the 2016 Act;";

(b) yn is-adran (3), ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

"(aa) in the case of the services mentioned in subsection (2)(aa), the person registered under section 7 of the 2016

(**1**) Amnewidiwyd adran 22(1)(a) a (b) gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6), adran 103(1) ac amnewidiwyd paragraff (b) gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, adran 185 ac Atodlen 3, paragraffau 1 ac 8(a).

(**2**) Amnewidiwyd is-adran (2)(e) gan O.S. 2016/413 (Cy. 131), rheoliad 171(a).

(**3**) Mewnosodwyd is-adran (7)(m) gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4), adran 183.

(**4**) Mewnosodwyd y cyfeiriad at adran 119 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gan O.S. 2016/413 (Cy. 131), rheoliad 171(b).

(**5**) Mewnosodwyd adran 30ZA gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14), adran 95 ac Atodlen 5, paragraffau 1 a 25.

(**6**) Mewnosodwyd is-adran (2)(d) gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, adran 95 ac Atodlen 5, paragraffau 1 a 26(4).

(**7**) Amnewidiwyd is-adran (3)(b) gan O.S. 2016/413 (Cy. 133), rheoliad 173.

(**8**) Y mae diwygiadau iddi nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Act in respect of the regulated service is to be treated as the provider of the services;";

(c) ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

"(5A) In the case of services mentioned in subsection (2)(aa), where a service is provided at, from or in relation to two or more places, the service is to be treated as a separate service in relation to each place where it is provided at, from or in relation to for the purposes of this Part.";

(d) yn lle is-adran (8) rhodder—

"(8) In this section—

"the 2016 Act" means the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016;

"relevant adoption functions" means the functions of local authorities in Wales under the Adoption and Children Act 2002 of making or participating in arrangements for the adoption of children or the provision of adoption support services (as defined in section 2(6) of that Act);

"relevant fostering functions" means the functions of local authorities in Wales under section 81 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 or regulations made under or by virtue of any of sections 87, 92(1)(a), (b), (d) or (e) or 93 of that Act in connection with placements with local authority foster parents."

Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p. 38)

14. Mae Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

15. Yn adran 2—

(a) yn lle is-adran (2) rhodder—

"(2) In this Act, "registered adoption society" means—

(a) in relation to England, a voluntary organisation which is an adoption society registered under Part 2 of the Care Standards Act 2000 (c. 14), or

(b) in relation to Wales, a voluntary organisation which is an adoption society registered as a provider in Wales of an adoption service under Part 1 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2),

but in relation to the provision of any facility of the Adoption Service, references to a registered adoption society or to an adoption agency do

not include an adoption society which is not registered in respect of that facility.";

(b) yn is-adran (4), ar ôl "Care Standards Act 2000" mewnosoder "or Part 1 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016".

16. Yn adran 6, ar ôl "Care Standards Act 2000 (c. 14)" mewnosoder "or Part 1 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2)".

17. Yn adran 7(1)(b), ar ôl "Care Standards Act 2000" mewnosoder "or Part 1 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016".

18. Hepgorer adran 16(**1**).

19. Yn adran 63(4)—

(a) ar ddechrau paragraff (c) mewnosoder "in relation to England,";

(b) ar ôl paragraff (c) mewnosoder—

"(d) in relation to Wales, an adoption support agency registered as an adoption service under Part 1 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2)."

20. Yn adran 98(7)(**2**), yn lle'r diffiniad o "registered adoption support agency" rhodder—

""registered adoption support agency" means—

(a) in relation to England, an adoption support agency in respect of which a person is registered under Part 2 of the Care Standards Act 2000 (c. 14), or

(b) in relation to Wales, an adoption support agency registered as an adoption service under Part 1 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2);".

21. Yn adran 144(1), yn lle'r diffiniad o "registration authority" rhodder—

""registration authority" (in Part 1)—

(a) in relation to England, has the same meaning as in the Care Standards Act 2000 (c. 14), and

(b) in relation to Wales, means the Welsh Ministers,".

(**1**) Mae'r diddymiad hwn yn ganlyniadol i ddiddymu adran 36A o Ddeddf Safonau Gofal 2000 ym mharagraff 12 o Atodlen 3 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

(**2**) Y mae diwygiadau iddi nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

22. Yn Atodlen 2, yn lle paragraff 2(2) rhodder—

"(2) In sub-paragraph (1)(b) "registered adoption support agency" means—

(a) in relation to England, an adoption support agency in respect of which a person is registered under Part 2 of the Care Standards Act 2000 (c. 14), or

(b) in relation to Wales, an adoption support agency registered as an adoption service under Part 1 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2)."

Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (p. 42)

23. Mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

24. Yn adran 21(4)(**1**), ar ôl paragraff (g) mewnosoder—

"(h) premises in Wales at which a secure accommodation service is provided,".

25. Yn adran 22(5)(**2**), yn y lle priodol mewnosoder—

""secure accommodation service" has the meaning given in Part 1 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016;".

Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p. 47)

26. Mae Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

27. Yn adran 6(4)(b)(ii)(**3**), yn lle "section 11 of the Care Standards Act 2000" rhodder "Part 1 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2)."

28. Yn Atodlen 7—

(a) ym mharagraff 1(**4**), yng nghofnod rhif 14 o Golofn 1 o'r tabl—

(**1**) Diwygiwyd adran 21 gan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23), Atodlen 1, paragraff 15 a chan O.S. 2008/1779 ac O.S. 2018/195 (Cy. 44). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol.

(**2**) Diwygiwyd is-adran (5) gan O.S. 2018/195 (Cy. 44), rheoliad 22(b). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol.

(**3**) Mewnosodwyd is-baragraff (ii) o adran 6(4)(b) gan O.S. 2010/813.

(**4**) Diwygiwyd paragraff 1 o Atodlen 7 gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (p. 9), adran 115(1), Atodlen 9, Rhan 6, paragraffau 43, 73(1) a (2)(a); mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol.

(i) ar ôl "adult placement scheme" mewnosoder "or provides an adult placement service";

(ii) ar ôl "the scheme" mewnosoder "or service";

(b) ym mharagraff 6(b)(**1**)—

(i) hepgorer ", or" yn union ar ôl paragraff (i);

(ii) hepgorer paragraff (ii);

(c) ar ôl paragraff 6 mewnosoder—

"**7.** An adult placement service, in relation to Wales, has the meaning given in paragraph 6 of Schedule 1 to the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2)."

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4)

29. Yn adran 197(1)(**2**) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn y diffiniad o "cartref plant", yn lle paragraff (b) rhodder—

"(b) man yng Nghymru y mae person wedi ei gofrestru o dan Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 mewn cysylltiad ag ef i ddarparu—

(i) gwasanaeth cartref gofal (o fewn ystyr paragraff 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno) yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant, neu

(ii) gwasanaeth llety diogel (o fewn ystyr paragraff 2 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno);".

Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 (p. 2)

30. Mae Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

31. Yn adran 22(8)—

(a) yn y diffiniad o "registered adoption society", ar ôl "Care Standards Act 2000" mewnosoder "or Part 1 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2)";

(b) yn y diffiniad o "registered adoption support agency", ar ôl "Care Standards Act 2000"

(**1**) Diwygiwyd paragraff 6 o Atodlen 7 gan O.S. 2010/813, erthygl 19(1) a (6).

(**2**) Amnewidiwyd y diffiniad o "cartref plant" gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, adran 185 ac Atodlen 3(1), paragraff 36.

mewnosoder "or Part 1 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016".

32. Yn Atodlen 4(**1**)—

(a) ym mharagraff 1(1)(ca)—

(i) ar ddiwedd is-baragraff (i) hepgorer "or";

(ii) ar ddiwedd is-baragraff (ii) mewnosoder—

"or

(iii) a secure accommodation service;";

(b) ym mharagraff 4, yn y lle priodol mewnosoder—

""secure accommodation service" has the meaning given in paragraph 2 of Schedule 1 to the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016."

Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 (p. 6)

33.—(1) Mae Rhan 1 o Atodlen 7(**2**) i Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) O dan y pennawd "Education, child care etc"(**3**), yn y cofnod sy'n dechrau "A person registered under Part 1"—

(a) ar ddiwedd paragraff (a) hepgorer "or";

(b) ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

"(c) a secure accommodation service, or

(d) a fostering service,".

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2)

34.—(1) Mae Rhan 1 o Atodlen 3 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 5—

(a) yn lle is-baragraff (a) rhodder—

"(a) yn is-adran (1)(b), yn lle "in any other case" rhodder "in the case of establishments and agencies mentioned in subsection (1B)"";

(b) yn lle is-baragraff (c) rhodder—

(**1**) Diwygiwyd paragraffau 1 a 4 gan O.S. 2018/195 (Cy. 44), rheoliad 54.

(**2**) Symudwyd yr Atodlen 7 bresennol i Ran newydd 1 gan O.S. 2015/928, rheoliad 8 ac Atodlen 2, paragraff 2 ag iddo effaith o 12 Ebrill 2015.

(**3**) Mewnosodwyd y cofnod sy'n ymwneud ag "a person registered under Part 1 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2)" gan O.S. 2018/195 (Cy. 55), rheoliad 55.

"(c) ar ôl is-adran (1A) mewnosoder—

"(1B) The establishments mentioned in subsection (1)(b) are—

(a) independent hospitals in Wales;

(b) independent clinics in Wales;

(c) independent medical agencies in Wales.""

Julie Morgan
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad